CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 6

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Philip Blaker
Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

23 Mawrth 2023

**Eich barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

Annwyl Philip,

Fel y gwyddoch efallai, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wrthi'n ymgymryd ag ymchwiliad hirdymor i weithredu diwygiadau allweddol ym maes addysg a basiwyd yn ystod y Senedd ddiwethaf (2016-2021), gan gynnwys Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Rydym yn anfon copïau atoch o lythyrau rydym wedi'u hysgrifennu at gynrychiolwyr y sector AU ledled y DU a phrif gynrychiolwyr cyffredinol y sector addysg a hyfforddiant ôl-16 yma yng Nghymru i ofyn eu barn ar unrhyw agwedd ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac yn benodol beth maent yn ei ystyried fydd effaith y Cwricwlwm ar y canlynol:

- derbyn plant a phobl ifanc Cymru i addysg uwch; a'r
- sgiliau cyffredinol y bydd eu hangen ar blant a phobl ifanc Cymru i lwyddo ar gyrsiau addysg uwch.

Nid ydym am ddyblygu na rhagdybio'r gwaith rydych chi'n ei wneud i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ôl-16 ar ddyfodol cymwysterau. Rydym yn awyddus i glywed barn ar weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 er mwyn llywio ein gwaith ein hunain.

Rydym hefyd yn awyddus i glywed safbwynt fwy diweddar gennych, fel y rheoleiddiwr annibynnol, ynghylch a fydd diwygiadau'r cwricwlwm o fudd i bobl ifanc Cymru a Chymru yn ehangach. Byddai'n ddiddorol iawn clywed hefyd am y gwaith ymgysylltu rydych yn ei wneud gyda'r sector ôl-16, yn enwedig y sector addysg uwch y tu allan i Gymru.

Mae ein gwaith craffu ar weithredu diwygiadau'r cwricwlwm yn parhau yn ystod y Senedd hon (hyd at wanwyn 2026) ac rydym yn croesawu cyflwyniadau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael unrhyw ymateb y dymunwch ei roi ar y pwyntiau

uchod yn benodol erbyn 24 Ebrill 2023 fel y gall lywio ein cyfres nesaf o weithgareddau craffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sy'n cynnwys craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr amserlen hon, neu os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn neu'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod (SeneddPlant@Senedd.Cymru). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.